



Lower Carbon

## Byw gyda gwylanod ym Mhrifysgol Abertawe – cyngor i fyfyrwyr a staff



Minimal Waste

Mae gwylanod yn anifeiliaid manteisgar, sydd wedi esblygu i oroesi amodau garw ar hyd ein harfordiroedd, a phan fyddant yn darganfod ffynhonnell gyfleus o fwyd, maent yn manteisio i'r eithaf. Mae dinasoedd yn llawn cyfleoedd i ddod o hyd i fwyd ar gyfer yr anifeiliaid addasadwy hyn, ond gall arwain at wrthdaro â phobl. Mae eu hannog i ddod at bobl drwy ollwng sbwriel neu eu bwydo'n fwiadol wedi arwain iddynt geisio dwyn cinio pobl ddiniwed, gan hyd yn oed achosi anafiadau. Nid yw hon yn broblem sy'n unigryw i Brifysgol Abertawe, ond mae'r Mall a'r ardal o flaen Tŷ Fulton yn ardaloedd amlwg ar gyfer gwylanod a'u campau!



Biodiverse  
Campuses

### Sut i osgoi cael eich mygio gan wylan:

- Byddwch yn effro ac yn wylidwrus – mae'n annhebygol y bydd gwylanod yn ceisio cipio eich bwyd os ydych chi'n eu gwyllo
- Cadwch eich bwyd yn agos atoch
- Ceisiwch osgoi bwyta mewn mannau agored gydag adeiladau yn edrych drosoch – bydd gwylanod yn eich gweld o bell ac yn plymio tuag atoch
- Ceisiwch fwyta â'ch cefn yn erbyn wal fel na allant ddod atoch o'r tu ôl i chi
- Rydych yn llawer llai tebygol o ddiodeff ymosodiad mewn ardal goediog megis yr Ardd Fotaneg neu Barc Singleton – maent yn fannau gwych ar gyfer picnic
- Ewch â'ch gwastraff bwyd gyda chi a'i roi mewn bin – yn ddelfrydol, rhowch y gwastraff mewn bin bwyd ond os nad oes un gerllaw, yna rhowch ef mewn bin ar gyfer gwastraff cyffredinol
- Os ydynt yn cerdded tuag atoch, helwch nhw ymaith – efallai eu bod yn fawr ac yn frawychus, ond rydych chi'n fwy ac yn fwy brawychus!



Sustainable  
Travel



Positive  
Procurement

Mae dysgu gwylanod i gysylltu pobl â bwyd yn arwain atynt i fod yn fwy ymosodol. **Peidiwch â bwydo'r gwylanod.**



Wellbeing  
and Health



Culture and  
Community



Knowledge  
and Skills